



Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Cyfradd Ddisgownt Anaf Personol

Archwilio'r opsiwn o gael cyfradd
ddeuol/lluosog

Crynodeb gweithredol a set o gwestiynau

17 Ionawr 2023





Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Cyfradd Ddisgownt Anaf Personol

Archwilio'r opsiwn o gael cyfradd ddeuol/lluosog

Crynodeb gweithredol a set o gwestiynau

Cais am Dystiolaeth a gynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae hefyd ar gael yn <https://www.gov.uk/government/consultations/personal-injury-discount-rate-exploring-the-option-of-a-dualmultiple-rate>

Ynglŷn â'r Cais am Dystiolaeth hwn

At: Pawb sydd â diddordeb mewn hawliadau anafiadau personol

Hyd: O 17 Ionawr 2023 hyd at 11 Ebrill 2023

Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau i gael y papur mewn fformat arall) i: **Civil Justice & Law Policy**
Post point 5.23
Ministry of Justice
102 Petty France
London SW1H 9AJ
Ffôn: 020 3334 3157
E-bost: Personal-Injury-Discount-Rate@justice.gov.uk

Sut i ymateb: Anfonwch eich ymateb erbyn dydd Mawrth 11 Ebrill 2023 at:
Civil Justice & Law Policy
Post point 5.23
Ministry of Justice
102 Petty France
London SW1H 9AJ
Ffôn: 020 3334 3157
E-bost: Personal-Injury-Discount-Rate@justice.gov.uk

Papur ymateb: Bydd yr ymateb i'r Cais am Dystiolaeth hwn yn cael ei gyhoeddi erbyn Gorffennaf 2023 yn:
<https://www.gov.uk/government/consultations/personal-injury-discount-rate-exploring-the-option-of-a-dualmultiple-rate>

Cynnwys

Rhagair	2
Crynodeb gweithredol	4
Cyflwyniad	5
Holiadur	6
Amdanoch chi	9
Manylion cyswllt/Sut i ymateb	10
Asesiad Effaith	12
Egwyddorion Cais am Dystiolaeth	13

Rhagair

Mae'r Gyfradd Ddisgownt Anaf Personol yn fecanwaith pwysig ar gyfer cyflawni'r egwyddor cyfraith gwlad hirsefydlog sef, pan fydd rhywun wedi'i anafu ar gam, y bydd yn cael iawndal llawn, gan gynnwys ar gyfer ei anghenion ariannol yn y dyfodol.

Dylem gofio bob amser mai pobl go iawn sy'n gwneud yr hawliadau hyn, ac mae llawer ohonynt yn dioddef anafiadau sy'n newid bywyd. Dylai pobl sy'n dibynnu ar eu hiawndal i'w cefnogi drwy'r newidiadau sylweddol y bydd angen iddynt eu gwneud gael eu cefnogi'n briodol dros gyfnod eu hanaf neu, yn yr achosion mwyaf difrifol, am weddill eu hoes.



Dyna pam ein bod wedi ymrwymo i'r egwyddor o iawndal llawn ac rydym yn parhau i gefnogi'r nod y dylai pobl sydd wedi'u hanafu'n ddifrifol gael iawndal sy'n diwallu eu hanghenion nawr ac yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys costau gofal ac enillion a gollir yn y dyfodol.

Cyn Deddf Atebolrwydd Sifil 2018, roedd pryderon y gallai'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i bennu'r Gyfradd Ddisgownt Anaf Personol arwain at roi gormod o iawndal. Felly, cafodd y diwygiadau yn Rhan 2 o'r Ddeddf Atebolrwydd Sifil eu dylunio i greu ffordd decach a mwy cywir o bennu'r gyfradd ddisgownt, gan ystyried amrywiaeth o ffactorau.

Roedd y ffactorau hyn yn cynnwys y buddsoddiadau y mae hawlwr yn eu gwneud mewn gwirionedd, yr adenillion buddsoddi y gallent ddisgwyl eu cael, ac effeithiau costau rheoli buddsoddiadau, treth a chwyddiant. Adolygodd a gosododd yr Arglwydd Ganghellor ar y pryd y gyfradd gyntaf gan ddefnyddio'r fethodoleg newydd, sef -0.25% ym mis Gorffennaf 2019.


Yn hanesyddol, defnyddiwyd un gyfradd ddisgownt ar gyfer pob achos, beth bynnag fo maint a hyd yr iawndal a oedd yn cael ei ddyfarnu. Fodd bynnag, mae hyn yn wahanol i'r dull a ddefnyddir mewn awdurdodaethau cyfraith gwlad eraill, ac roedd dadlau y gall arwain at annhegwch i hawlwr. Yn ystod adolygiad 2019, paratôdd Actiwari'r Llywodraeth

ddadansoddiad manwl¹ i helpu i benderfynu ar y cyfraddau ac, fel rhan o'r gwaith hwn, edrychodd ar effeithiau cymhwyso cyfradd ddeuol at ganlyniadau hawlwr.

Roedd y dadansoddiad hwn yn rhoi cipolwg defnyddiol ar sut gellid diwygio'r gyfradd ddisgownt i sicrhau canlyniadau tecach i fwy o hawlwr. Fodd bynnag, mae ffyrdd eraill y gellid ffurfio dull cyfradd ddeuol neu luosog ar ben yr hyn a fodelwyd gan Actiwari'r Llywodraeth. Felly, gan fod angen gwneud mwy o waith i nodi'r strwythur priodol ac effaith ymarferol cyflwyno Cyfradd Ddisgownt Anaf Personol ddeuol neu luosog yng Nghymru a Lloegr, penderfynwyd peidio â mynd ar drywydd hyn bryd hynny.

Fodd bynnag, mae archwilio modelau cyfraddau disgownt deuol neu luosog yn fwy manwl yn dal i fod yn ymarfer gwerth chweil. Felly, er nad oedd y sylfaen dystiolaeth yn ddigonol i gyfiawnhau newid o'r fath yn 2019, ymrwymodd yr Arglwydd Ganghellor ar y pryd i geisio barn a thystiolaeth ychwanegol cyn cyfnod adolygu'r gyfradd nesaf yn 2024.

Mae'r papur hwn yn rhoi'r ymrwymiad hwnnw mewn grym a chroesawaf gyflwyniadau gan yr holl randdeiliaid ar y mater pwysig hwn.

A handwritten signature in black ink that reads "Christopher Bellamy". The signature is written in a cursive style with a long horizontal line extending from the end of the name.

Yr Arglwydd Christopher Bellamy CB
Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gyfiawnder

¹ <https://www.gov.uk/government/consultations/setting-the-personal-injury-discount-rate-government-actuaries-advice-to-the-lord-chancellor>

Crynodeb gweithredol

Ar ôl cychwyn Rhan 2 o Ddeddf Atebolrwydd Sifil 2018, cynhaliwyd adolygiad llawn o'r Gyfradd Ddisgownt Anaf Personol, a chafodd cyfradd newydd ei phennu gan yr Arglwydd Ganghellor ar y pryd ym mis Gorffennaf 2019. Wrth ddatblygu'r gyfradd newydd, rhoddodd Actiwari'r Llywodraeth gyngor manwl i'r Arglwydd Ganghellor yn unol â'r gofynion statudol yn Neddf Atebolrwydd Sifil 2018.

Fel rhan o'r broses hon, darparodd Actiwari'r Llywodraeth ddadansoddiad hefyd a datblygodd fodel gweithio i'r Arglwydd Ganghellor ei ystyried mewn perthynas â rhagnodi cyfraddau deuol. Yn y dull a ddefnyddir, byddai hyn yn golygu pennu cyfradd is yn y tymor byr ac yna symud i gyfradd uwch yn y tymor hir ar ôl cyfnod newid priodol (er enghraifft, awgrymir 15 mlynedd yn y dadansoddiad). Fodd bynnag, mae dulliau eraill posibl fel cyfraddau ar wahân ar gyfer gwahanol benawdau colledion, fel costau gofal neu enillion a gollir yn y dyfodol.

Fodd bynnag, mae'r achos dros gael cyfradd ddeuol yn un diddorol. Mae'r dadansoddiad yn cyflwyno rhai arwyddion addawol, yn enwedig o ran mynd i'r afael â sefyllfa hawlwy'r tymor byr. Fodd bynnag, er y teimlid bod y diffyg tystiolaeth ategol yn golygu na fyddai'n briodol mabwysiadu cyfradd ddeuol bryd hynny, dylid edrych yn fanylach ar botensial y gyfradd ddeuol, a'i chanlyniadau posibl.

Mae'r Cais am Dystiolaeth hwn yn edrych yn fanylach ar y materion sy'n gysylltiedig â chyflwyno a defnyddio cyfradd ddeuol a/neu luosog. Mae'n archwilio amrywiaeth o faterion gan gynnwys a ellid pennu cyfraddau gwahanol ar gyfer 'penawdau colledion' neu 'hyd yr anaf', ac mae'n edrych ar nifer o fodolau cyfraddau deuol/lluosog eraill sydd ar waith ar hyn o bryd mewn awdurdodaethau eraill.

Bydd yr holl wybodaeth a'r dystiolaeth ychwanegol a gyflwynir yn cael eu hystyried a'u defnyddio yng ngwaith y panel o arbenigwyr a fydd yn rhoi cyngor ar y gyfradd ddisgownt nesaf.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
17 Ionawr 2023

Cyflwyniad

1. Mae'r ddogfen Cyfradd Ddisgownt Anaf Personol - Archwilio'r opsiwn o gael cyfradd ddeuol/luosog - Galwad am Dystiolaeth yn ceisio barn a thystiolaeth am sut gellid rhoi system cyfradd ddwbl neu luosog ar waith wrth bennu'r Gyfradd Ddisgownt Anaf Personol, a beth fyddai effaith system o'r fath ar ymgeiswyr, diffynyddion a phobl eraill â buddiant. Mae'r Cais am Dystiolaeth wedi'i anelu at bobl sydd â diddordeb mewn hawliadau uchel eu gwerth am anafiadau personol yng Nghymru a Lloegr a sut mae'r iawndal a ddyfernir yn cael ei fuddsoddi.
2. Gofynnir i ymatebwyr ystyried y materion a godir yn y ddogfen hon, ateb y cwestiynau a chyflwyno unrhyw dystiolaeth sydd ar gael i gefnogi eu sefyllfa. Bydd y Cais am Dystiolaeth yn para am 12 wythnos a bydd yn cau ar 11 Ebrill 2023. Bydd ymateb yn cael ei baratoi a'i gyhoeddi erbyn mis Gorffennaf 2023. Oherwydd natur dechnegol y ddogfen hon, nid oes fersiwn Gymraeg lawn ar gael. Fodd bynnag, mae'r ddogfen hon yn cyflwyno cyfieithiad Cymraeg o'r crynodeb gweithredol a'r set cwestiynau llawn.
3. Nid oes Asesiad Effaith wedi'i baratoi ar gyfer y papur hwn gan ei fod yn ystyried yr opsiwn o gael system cyfradd ddeuol neu luosog, yn hytrach na chyflwyno cynigion pendant ar gyfer diwygio.
4. Mae copiâu o'r papur Cais am Dystiolaeth yn cael eu hanfon at y sefydliadau a restrir yn **Atodiad 1**. Fodd bynnag, ni fwriedir i'r rhestr hon gynnwys pawb nag eithrio neb, a byddwn yn croesawu ymatebion gan bawb sydd â diddordeb yn y pwnc a drafodir yn y papur hwn, neu sydd â safbwynt yn ei gylch.

Holiadur

Byddem yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau canlynol a gyflwynir yn y Cais am Dystiolaeth hwn:

Cwestiwn 1: A oes gennych chi fodel rydych chi'n ei ffafrio ar gyfer system cyfradd ddeuol/lluosog sy'n seiliedig ar unrhyw un o'r enghreifftiau rhyngwladol a nodir yn y papur Cais am Dystiolaeth (neu'n seiliedig ar eich profiad chi neu brofiad eich sefydliad o weithredu mewn awdurdodaethau eraill)?

Rhowch resymau ynghyd â data a/neu dystiolaeth gysylltiedig.

Cwestiwn 2: Yn eich barn chi, beth yw prif gryfderau a gwendidau'r systemau cyfradd ddeuol/lluosog a geir ar gyfer pennu'r gyfradd ddisgownt mewn awdurdodaethau eraill?

Cwestiwn 3: Yn eich barn chi, beth yw'r pwynt gorau ar gyfer newid o gyfradd tymor byr i gyfradd tymor hir ar fodel cyfradd ddeuol sy'n seiliedig ar hyd?

Rhowch resymau ynghyd â data cysylltiedig.

Cwestiwn 4: Beth fyddech chi'n ei ystyried yn isafbwynt ac uchafswm absoliwt ar gyfer newid rhwng dwy gyfradd?

Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

Cwestiwn 5: Pe bai system cyfradd ddeuol yn cael ei chyflwyno, a fyddech yn dadlau o blaid ei sefydlu ar sail hyd yr hawliad gyda phwynt newid, ar sail hyd yn seiliedig ar hyd yr hawliad neu ei benawdau colledion (neu gyfuniad o'r ddau)?

Rhowch resymau dros eich dewis os gwelwch yn dda.

Cwestiwn 6: Wrth ddelio ag anwadalrwydd marchnadoedd dros y tymor byr a yw'n rhesymol tybio y dylai cyfraddau tymor byr mewn system sy'n seiliedig ar hyd fod yn fwy amrywiol ac wedi'u gosod ar gyfradd is; a chyfraddau tymor hir yn fwy sefydlog ac wedi'u gosod ar gyfradd uwch?

Os ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y dybiaeth hon yn rhesymol, dywedwch pam.

Cwestiwn 7: Os yw cyfraddau tymor byr yn fwy anwadal, a ddylid adolygu'n amlach?

Esboniwch eich rhesymau.

Cwestiwn 8: Beth fyddech chi'n ystyried fyddai manteision system cyfradd ddeuol/lluosog?

Cwestiwn 9: Beth fyddech chi'n ystyried fyddai anfanteision system cyfradd ddeuol/lluosog?

Cwestiwn 10: Yn eich barn chi, beth fyddai'r effeithiau penodol ar weithredu a gweinyddu'r gyfradd ddisgownt pe cyflwynir cyfradd ddeuol/lluosog?

Cwestiwn 11: Yn ogystal ag effeithiau penodol, ydych chi'n meddwl y bydd canlyniadau ychwanegol o ganlyniad i weithredu cyfradd ddeuol/lluosog?

Rhowch resymau ynghyd â data/tystiolaeth gysylltiedig os oes modd.

Cwestiwn 12: Pe bai Cyfradd Ddisgownt Anaf Personol ddeuol/lluosog yn cael ei chyflwyno, a fyddai'n ddefnyddiol darparu cyfnod arweiniol i baratoi prosesau, paratoi newidiadau TG ac ati ac, os felly, pa mor hir ddylai hyn fod?

Rhowch resymau dros eich ateb.

Cwestiwn 13: Yn eich barn chi, beth fyddai effeithiau cyfradd ddeuol/lluosog ar ymddygiad buddsoddi hawlydd a beth fyddai hyn yn ei olygu o ran dylunio portffolio buddsoddi enghreifftiol?

Cwestiwn 14: Yn eich barn chi, beth fyddai effeithiau cyfradd ddeuol/lluosog wrth lunio rhagdybiaethau ar gyfer treth a threuliau wrth bennu'r gyfradd ddisgownt?

Cwestiwn 15: Yn eich barn chi, beth fyddai effeithiau cyfradd ddeuol/lluosog ar ddadansoddi pwysau a thueddiadau chwyddiant wrth bennu'r gyfradd ddisgownt?

Cwestiwn 16: Yn eich barn chi, beth fyddai'r effeithiau ar ganlyniadau hawlydd o fabwysiadu cyfradd ddeuol/lluosog ar gyfer pennu'r gyfradd ddisgownt?

Cwestiwn 17: Pe bai cyfradd ddeuol/lluosog yn cael ei mabwysiadu, a fyddai modd dychwelyd at un gyfradd mewn adolygiadau yn y dyfodol, neu a fyddai newid yn rhy ddryslyd a chymhleth ac yn cael ei ystyried yn derfynol?

Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

Cwestiwn 18: Yn eich barn chi, beth fyddai manteision ac anfanteision mabwysiadu cyfraddau lluosog, o'u cymharu â naill ai:

- cyfradd sengl; neu
- gyfradd ddeuol.

Cwestiwn 19: Pe bai dull penawdau colledion yn cael ei fabwysiadu, pa benawdau colledion ddylai fod yn ddarostyngedig i gyfraddau ar wahân – costau gofal a rheoli gofal, colli enillion yn y dyfodol, llety, neu unrhyw gategorïau eraill?

Cwestiwn 20: Gallai cyflwyno Cyfradd Ddisgownt Anaf Personol ddeuol/lluosog arwain at fwy o gymhlethdod i hawl wyr a digolledwyr. A ydych yn cytuno â'r dybiaeth y bydd y cymhlethdod hwn yn sefydlogi ac yn lleddfu pan fydd y sector yn addasu i'r broses newydd?

Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

Cwestiwn 21: Mae gan y Llywodraeth ddiddordeb o hyd mewn archwilio defnyddio Gorchmynion Taliadau Cyfnodol mewn perthynas â setliadau niwed personol uchel eu gwerth. Byddem felly'n croesawu unrhyw gyflwyniadau, data a/neu dystiolaeth sydd gan randdeiliaid mewn perthynas â defnyddio Gorchmynion Taliadau Cyfnodol yn effeithiol.

Cwestiwn 22: A ydych yn cytuno y byddai defnyddio Cyfradd Ddisgownt Anaf Personol uwch i gyfrifo'r gyfradd enillion gwirioneddol mewn setliadau sy'n Gorchmyn Talu Cyfnodol yn arwain at ffordd fwy priodol o addasu enillion buddsoddi enwol ar gyfer chwyddiant yn y dyfodol?

Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

Cwestiwn 23: Pa effaith fyddai system cyfradd ddeuol/lluosog yn ei chael ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig, fel y diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010?

Amdanoch chi

Rhowch wybodaeth amdanoch chi yn yr adran hon

Enw llawn	
Teitl swydd neu ym mha rinwedd rydych yn ymateb i'r Cais am Dystiolaeth hwn (e.e. aelod o'r cyhoedd ac ati.)	
Dyddiad	
Enw'r cwmni/sefydliad (os yw'n berthnasol):	
Cyfeiriad	
Cod post	
Os hoffech chi i ni gydnabod ein bod wedi cael eich ymateb, ticiwch y blwch hwn	<input type="checkbox"/> (ticiwch y blwch)
Y cyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth iddo, os yw'n wahanol i'r uchod	

Os ydych chi'n cynrychioli grŵp, rhowch enw'r grŵp hwnnw i ni, os gwelwch yn dda, gyda disgrifiad cryno o'r bobl neu'r mudiadau rydych yn eu cynrychioli.

Manylion cyswllt/Sut i ymateb

Manylion cyswllt y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Anfonwch eich ymateb erbyn 11 Ebrill 2023 at:

Civil Justice and Law Policy

Ministry of Justice

Post point 5.23

102 Petty France

London SW1H 9AJ

Ffôn: 020 3334 3157

E-bost: Personal-Injury-Discount-Rate@justice.gov.uk

Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych chi gwynion neu sylwadau ynghylch y Cais am Dystiolaeth, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gan ddefnyddio'r cyfeiriad uchod.

Copïau ychwanegol

Mae rhagor o gopïau papur o'r Cais am Dystiolaeth hwn ar gael o'r cyfeiriad hwn, ac mae hefyd ar gael ar-lein yn <https://www.gov.uk/government/consultations/personal-injury-discount-rate-exploring-the-option-of-a-dualmultiple-rate>.

Gellir gwneud cais am gopïau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatau eraill trwy e-bostio:

Personal-Injury-Discount-Rate@justice.gov.uk

Cyhoeddi ymateb

Cyhoeddir papur yn crynhoi'r ymatebion i'r Cais am Dystiolaeth hwn mewn tua thri mis. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein yn:

<https://www.gov.uk/government/consultations/personal-injury-discount-rate-exploring-the-option-of-a-dualmultiple-rate>.

Grwpiau cynrychioladol

Gofynnir i grwpiau cynrychioladol roi disgrifiad cryno o'r bobl a'r mudiadau maent yn eu cynrychioli pan fyddant yn ymateb.

Cyfrinachedd

Drwy ymateb i'r Cais am Dystiolaeth hwn, rydych yn cydnabod y bydd eich ymateb, ynghyd â'ch enw/hunaniaeth gorfforaethol yn cael eu gwneud yn hysbys i'r cyhoedd pan fydd yr Adran yn cyhoeddi ymateb i'r Cais am Dystiolaeth yn unol â'r rheolweithiau ar gyfer yr hawl i weld gwybodaeth (y prif rai yw Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Mae'r Llywodraeth yn credu ei bod yn bwysig i sicrhau tryloywder fod y cyhoedd yn gallu gweld pwy sydd wedi ymateb i Gais y Llywodraeth am Dystiolaeth a beth yw eu barn. Yn ogystal â hyn, gall yr Adran ddewis peidio â thynnu'ch enw/manylion o'ch ymateb yn ddiweddarach, er enghraifft, os ydych yn newid eich meddwl neu'n ceisio cael eich 'anghofio' o dan ddeddfwriaeth diogelu data, os bydd yr Adran o'r farn ei bod er budd y cyhoedd o hyd i'r manylion hynny fod ar gael i'r cyhoedd.

Os nad ydych chi am i'ch enw/manylion corfforaethol gael eu datgelu fel hyn, yna fe'ch cynghorir i ymateb yn ddiennw (er enghraifft fel 'perchennog busnes lleol', 'aelod o'r cyhoedd'). Fel arall, efallai byddwch chi'n dewis peidio ag ymateb o gwbl.

Aseiad Effaith

Nid oes Aseiad Effaith wedi'i baratoi ar gyfer y Cais am Dystiolaeth hwn gan mai canolbwyntio ar archwilio'r opsiwn o gael cyfradd ddeuol a wneir ar hyn o bryd, yn hytrach nag ymgynghori ar set o gynigion ar gyfer cyflwyno un. Bydd ymatebion i'r Cais am Dystiolaeth yn helpu i lywio'r gwaith o baratoi Aseiad o Effaith yn y dyfodol.

Egwyddorion Cais am Dystiolaeth

Mae'r egwyddorion a ddylai gael eu mabwysiadu gan adrannau Llywodraeth a chyrrff cyhoeddus eraill ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi cael eu hamlinellu yn Egwyddorion Cais am Dystiolaeth Swyddfa'r Cabinet 2018 sydd ar gael yma:

[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/691383/Call for Evidence_Principles__1_.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/691383/Call_for_Evidence_Principles__1_.pdf)



© Hawlfraint y Goron 2019

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi ei drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i:
nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Os ydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae fersiynau o'r cyhoeddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill drwy wneud cais i Civil Justice and Law Policy Division, Personal-Injury-Discount-Rate@justice.gov.uk